

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd  
meysydd llên, crefydd a hanes  
yng Nghaerdydd a'r Fro*

## Yr Athro E. Wyn James



### Anna Waring, Iolo Morganwg, a Chrynwyr Castell-nedd a Chernyw (Rhan 8)

Joseph Tregelles Price (1784–1854) oedd un o ddyngarwyr amlycaf Cymru yn hanner cyntaf y 19eg ganrif. Nid un o Gymru ydoedd yn wreiddiol. Fe'i ganed yng Nghernyw i deulu dylanwadol o Grynwyr, ond yn 1801, ac yntau'n 17 oed, symudodd i ardal Castell-nedd pan ddaeth ei dad, Peter Price (1739–1821), yn rheolwr Gwaith Haearn Mynachlog Nedd. Dilynodd Joseph ei dad yn rheolwr y gwaith haearn enwog hwnnw yn 1818 ac yn ardal Castell-nedd y treuliodd weddill ei fywyd.

Fel y crybyllwyd sawl tro eisoes yn y gyfres hon, roedd Peter Price, ei wraig, Anna Tregelles (1759–1846), a nifer o'u plant yn nodedig am eu gwaith dyngarol, elusennol a Christnogol. Yn ein herthygl ddiwethaf, rhoddwyd sylw arbennig i un o'r meysydd y gwnaeth Joseph, eu mab, gyfraniad sylweddol iawn iddo, sef yr ymgyrch dros heddwch byd-eang. Ef, er enghraifft, oedd prif ysgogydd sylfaenu'r Gymdeithas Heddwch yn 1816, ac ef oedd ei Llywydd cyntaf. Ond bu'n weithgar hefyd ar hyd ei fywyd yn yr ymgyrch i ddiddymu caethwasiaeth, ac at hynny y trown y tro hwn.

Cyhoeddais dair erthygl am gaethwasiaeth yn Jamaica a'r ymgyrchu i'w dileu yn y golofn 'Llys a Llan' yn niwedd 2021 a dechrau 2022. (Maent i'w cael yn ddigidol yma: <http://dinesydd.cymru/teithiau/>) Fel y soniais ynddynt, dechreuodd y fasnach mewn caethion Du o ddifrif yn hanes Prydain yng nghanol yr 17eg ganrif gyda datblygu'r diwydiant siwgr yn ynysoedd y Caribî, ac yn arbennig ar ôl i Jamaica ddod i feddiant Prydain yn yr 1650au. Yn ystod y 18fed ganrif, daeth siwgr yn rhan hynod bwysig o'r economi, a dyna ran o'r rheswm am y cynnydd mawr yn y fasnach mewn caethion a welwyd wrth i'r ganrif honno fynd yn ei blaen. Erbyn yr 1730au, Prydain oedd prif fasnachydd y byd mewn caethion Du, a chyn i Senedd Prydain ddileu'r fasnach yn 1807, cludwyd dros dair miliwn ohonynt, dan amodau erchyll, gan longau Prydeinig o Affrica i'r Byd Newydd, y rhan fwyaf ohonynt i'r Caribî.

Gwelwn rai o gyffiniau Caerdydd a'r Fro yn cadw caethion yn Jamaica. Dyna, er enghraifft, yr herwlongwr enwog o ardal Llanrhymni, Harri Morgan, a ddaeth yn is-lywodraethwr Jamaica yn 1674. 'Llanrumney' a 'Penkarne' oedd enwau dwy o'i blanhigfeydd ar yr ynys, ac adeg ei farw yn 1688 roedd ganddo 131 o gaethion. Yna, a symud i ddiwedd y 18fed ganrif, er bod Iolo Morganwg ei hun yn ffyrnig yn erbyn caethwasiaeth, roedd ei dri brawd wedi symud i Jamaica ac yn cadw caethion yno.

Ond cafwyd hefyd enghreifftiau o bobl yng

nghyffiniau Caerdydd a'r Fro a oedd, fel Iolo, yn wrthwynebus iawn i gaethwasiaeth ac yn ymgyrchu'n gryf yn ei herbryn. Un amlwg iawn yn niwedd y 18fed ganrif oedd Morgan John Rhys (1760–1804), gweinidog gyda'r Bedyddwyr o ardal Caerffili; ac ymhlith yr amlycaf yn hanner cyntaf y 19eg ganrif roedd Joseph Tregelles Price ac aelodau eraill o'i deulu, gan gynnwys ei chwaer, Junia Price (1787–1845), a'i frawd-yng-nghyfraith, Elijah Waring (1787–1857).

Nid yw'n syndod, mewn gwirionedd, weld Joseph Price yn ymgyrchu dros ddiddymu caethwasiaeth oherwydd yr oedd yn Grynwr. Dechreuodd yr ymgyrch i ddileu'r fasnach honno fagu nerth o ddifrif ym Mhrydain yn yr 1780au, tua adeg geni Joseph, ond roedd rhai wedi codi eu llais yn erbyn caethwasiaeth ymhell cyn hynny, a nifer arwyddocaol o'r rheini'n Grynwyr. Yn achos Cymru, er enghraifft, yng nghofnodion Cyfarfod Blynyddol Crynwyr benywaidd de Cymru yn 1764, disgrifiwyd prynu a gwerthu pobl Ddu fel peth '*repugnant*', ac aeth y cofnodion yn eu blaen i ddweud y dylai Crynwyr ymhob man annog pawb o'u plith a oedd yn ymwneud â'r '*unchristian Traffic*' hwnnw i ymwrthod ag ef, ac y dylent ddiarddel unrhyw rai a oedd yn mynnu parhau â'r fath fasnach atgas.

Crynwyr, felly, oedd rhai o'r bobl amlycaf yn yr ymgyrch yn erbyn caethwasiaeth yng Nghymru, ac ym Mhrydain yn gyffredinol, yn y 18fed ganrif. Y grŵp arall a oedd, yn anad neb, yn asgwrn cefn i'r ymgyrch honno oedd Cristnogion 'efengylaidd'. Er enghraifft, y cyntaf i gondemnio'r gaethfasnach mewn print yn y Gymraeg oedd yr emynydd Methodistaidd mawr, William Williams (1717–91) o Bantycelyn, a hynny yn *Pantheologia*, llyfr ar grefyddau'r byd a gyhoeddodd yn 1762, tua'r un adeg ag yr oedd Crynwyr benywaidd de Cymru yn condemnio'r fasnach yn eu Cyfarfod Blynyddol.

Dywed Williams Pantycelyn yn *Pantheologia*: 'Diau yw nas gellir fyth amddiffyn na chyfiawnhau y fath draffig â hwn.' Ac aeth yn ei flaen i feirniadu'r meistri planhigfeydd a geisiai rwystro'r caethion rhag dod yn Gristnogion 'rhag ofn iddynt ddeall bod y grefydd Gristnogol yn gorchymyn i bawb i wneuthur fel y dymunent i eraill wneuthur iddynt hwy' (sef 'Rheol Euraid' Mathew 7:12), ac y disgwyliai'r caethion yn ganlyniad gael eu trin 'fel dynion, ag sydd â'r un Duw ac â'r un Crist wedi marw trostynt'.

Nid yw'n syndod ychwaith weld Joseph Tregelles Price yn ymgyrchu dros ddiddymu caethwasiaeth, nid yn unig am ei fod yn Grynwr, ond hefyd oherwydd y dylanwadau a fu arno'n uniongyrchol gan ei deulu a thrwy gysylltiadau eraill. Roedd ei rieni yn wrthwynebus iawn i gaethwasiaeth. Fel y nodwyd

mewn erthygl flaenorol yn y gyfres hon (yn rhifyn Mehefin 2024), trodd ei dad, Peter Price, yn Grynwr ar ôl dod dan ddylanwad Crynwr o'r enw William Dillwyn (1743–1824), brodor o Philadelphia (ond o dras Cymreig) y cyfrannodd nifer o'i ddisgynyddion yn arwyddocaol i fywyd cyhoeddus a masnachol Abertawe.

Ymsefydlodd William Dillwyn yn Llundain yn 1777, ac ef oedd un o brif sylfaenwyr 'y Gymdeithas er Diddymu'r Fasnach mewn Caethion' ddeng mlynedd yn ddiweddarach, yn 1787. Chwaraeodd y gymdeithas honno ran gwbl allweddol yn y symudiad poblogaidd a gododd ym Mhrydain yr adeg honno i ddileu'r gaethfasnach – mudiad a arweiniodd, yn erbyn gwrthwynebiad llym ac ar ôl ymgyrchu caled iawn, at gael Senedd Prydain i wahardd y fasnach honno yn 1807.

Roedd naw o ddeuddeg sylfaenydd 'y Gymdeithas er Diddymu'r Fasnach mewn Caethion' yn Grynwyr a'r tri arall yn perthyn i'r Eglwys Wladol. Un o'r Anglicaniaid hynny oedd Thomas Clarkson (1760–1846). Yr aelod seneddol, William Wilberforce (1759–1833) – y chwaraewyd ei gymeriad gan Ioan Gruffudd yn y ffilm *Amazing Grace* (2006) – sy'n tueddu i gael y sylw pennaf pan fydd pobl yn sôn am yr ymgyrch i ddileu'r fasnach mewn caethion. Ac mae'n wir i Wilberforce gyfrannu'n arwyddocaol iawn trwy bwysu'n gyson ar y Senedd yn San Steffan am bron ugain mlynedd i ddileu'r gaethfasnach, nes iddo lwyddo o'r diwedd yn 1807. Ond gellid dadlau mai Clarkson yn fwy na neb a oedd yn gyfrifol am droi'r mudiad yn erbyn caethwasiaeth yn un poblogaidd ar lawr gwlad.

Teithiodd Thomas Clarkson yn eang ac yn ddifflino i godi cefnogaeth i'r mudiad, gan gynnwys ymweld â Chas-gwent, y Fenni a Threfynwy yn niwedd Gorffennaf 1787. Dileu'r fasnach mewn caethion a wnaeth Senedd Prydain yn 1807, ac roedd yn parhau'n gyfreithlon i gadw caethion yn Jamaica. Ond yn dilyn cyfnod o ymgyrchu taer a ddechreuodd o ddifrif yn 1823, pasiodd y Senedd ddeddf yn 1833 i ddileu caethwasiaeth yn raddol yn y rhan fwyaf o diriogaethau tramor Prydain. Teithiodd Clarkson yn ddifflino unwaith yn rhagor i godi cefnogaeth i'r ail don hon o ymgyrchu, a'r tro hwn aeth ar daith trwy Gymru gyfan ym misoedd Gorffennaf ac Awst 1824. Roedd ef

a Joseph Tregelles Price yn adnabod ei gilydd eisoes – roedd y ddau, er enghraifft, ymhlith sylfaenwyr y Gymdeithas Heddwch – ac ar ei daith trwy Gymru, gwelwn Clarkson yn galw ym Mynachlog Nedd i gael cyngor a chymorth gan Joseph Price.

Cododd mudiad cenhadol Protestannaidd grymus ym Mhrydain tua diwedd y 18fed ganrif, yr un adeg yn union â'r mudiad i ddiddymu caethwasiaeth. Roedd cefnogi'r ddau fudiad yn aml yn mynd law yn llaw. Gwelwn hynny yn achos Joseph Tregelles Price a'i deulu, oherwydd yn ogystal â bod yn ddiddymwr brwd, cefnogent hefyd ymdrechion cenhadol amrywiol. Bu Joseph Price, er enghraifft, yn drysorydd cangen Castell-nedd o Gymdeithas y Beibl – y gymdeithas a sylfaenwyd gan Thomas Charles o'r Bala ac eraill yn 1804 gyda'r nod o gael 'Beibl i bawb o bobl y byd', a chymdeithas y bu rhai fel William Wilberforce yn gefnogol iawn iddi.

Gwelwn ymroddiad dyngarol a Christnogol Joseph Price yn dod ynghyd mewn ffordd amlwg iawn yn sgil pasio'r ddeddf yn 1833 i ryddhau'r caethion yn nhiriogaethau tramor Prydain, oherwydd yn y flwyddyn ddilynol sefydlodd Joseph gronfa er mwyn cyfrannu at dalu am gopiâu o'r Testament Newydd a'r Salmuau i'w rhoi i'r caethion oedd yn cael eu rhyddhau. A chafwyd cyfraniadau anrhydeddus i'r gronfa honno gan drigolion Castell-nedd – dros £27 i gyd, a £5 o hynny gan weithwyr Gwaith Haearn Mynachlog Nedd.

Bu gohebu rhwng Thomas Charles o'r Bala a Joseph Tregelles Price yn 1813 ynghylch argraffiad newydd o'r Beibl Cymraeg gan Gymdeithas y Beibl a'r angen mawr a oedd ym Morgannwg bryd hynny i ddysgu'r werin bobl i ddarllen. A gellir amenio sylw D. E. Jenkins wrth iddo drafod yr ohebiaeth honno yn ei gofiant i Thomas Charles yn 1908, pan ddywed am Joseph Price: *'This good man deserves to be held in honourable remembrance, and Wales might honour itself by doing something to give prominence to his achievements.'*

Aeth cefnder i Joseph Price, Edwin Octavius Tregelles (1806–86), ar daith genhadol i'r Caribî yn 1843–44, a bu'n dyst i'r effaith a gafodd y Testamentau a anfonwyd yno yn 1834 – ond rhagor am Edwin Tregelles y tro nesaf!

(I'w barhau)